# Y goeden Nadolig leiaf yn y byd

Tristwch / Amynedd

Ar ochr y bryn roedd y goeden fach binwydd yn tyfu. Coeden fechan ddigalon iawn oedd y goeden binwydd. Roedd ei changhennau'n plygu gan ei bod mor oer.

Daeth aderyn heibio a gofynnodd iddi. "Pam wyt ti mor drist yr hen goeden fach? Cod dy galon mae'r Nadolig yn nesau. Wyt ti am fynd i'r dref dros y Nadolig?

"Nag ydw. Mae'n nhw'n dweud mod i rhy fychan. Does neb f'eisiau i," wylodd y goeden fach.

Dywedodd wrth yr aderyn bod y coed eraill i gyd wedi crefu arni i dyfu'n gyflym, gyflym a dod yn goeden Nadolig yn barod i fynd i'r dref. Yna dyma nhw i gyd yn mynd i'r dref i fod yn goed Nadolig a gadael y goeden fach ar ei phen ei hun.

Roedd y goeden fach yn unig iawn. "Mi fuaswn i wrth fy modd petawn i'n dalach," dechreuodd grio unwaith eto.

Meddyliodd yr aderyn am y goeden fach drist. Sut yn y byd y gallai helpu. "Mi wn i am syniad da. Mi af i weld y mul bach sy'n byw yn y pentref. Mae o'n gwybod bob dim am y Nadolig."

Cyrhaeddodd y mul bach a'r aderyn ochr y bryn. Ar hyd y ffordd cwynai'r mul bach. "Fydda i byth yn barod erbyn y Nadolig. Mae gen i gymaint o waith i'w wneud." Bu'n grwgnach ar hyd y ffordd i fyny'r bryn.

"Dyma ni wedi cyrraedd," meddai'r aderyn. Syllodd y mul bach ar y goeden.

"Tybed alla i dy helpu?" gofynnodd y mul bach.

"Efallai y gelli di," meddai'r goeden fach. "Coeden fechan ydw i ac mi fuaswn i'n hoffi bod yn goeden dal, dal." Dechreuodd grio unwaith yn rhagor.

"Paid â chrio goeden fach," meddai'r mul bach. "Edrych ar y goleuadau ar y goeden Nadolig yn y dref. Mae pawb yn paratoi ar gyfer y Nadolig. Mae'r anrhegion yn barod. Mae'r cardiau'n barod. Mae'r twrci a'r gacen Nadolig yn barod.

Mae'r plant yn barod i ganu carolau Nadolig. Mae pawb yn paratoi ar gyfer y Nadolig. Efallai, y flwyddyn nesaf, mai ti fydd y goeden Nadolig yng nghanol y dref."
Sychodd y goeden ei dagrau. Tywynnodd yr haul ar yr eira gwyn. Ac yng nghanol yr eira roedd coeden Nadolig hardda welsoch chi erioed. Dechreuodd y mul bach a'r aderyn ganu carolau. Daeth yr anifeiliaid oedd yn byw yn y cyffiniau atyn nhw i ganu carolau.
Ymhen dim roedd pawb wedi dod at ymyl y goeden fach. Doedd y goeden fach ddim ar ei phen ei hun mwyach. Doedd y goeden fach ddim yn drist, mwyach. Meddai wrthi'i hun. "Efallai y flwyddyn nesaf y byddaf yn goeden Nadolig yng nghanol y dref."

O Dduw, pan fydda i'n drist a digalon wnei di godi nghalon. Amen.

- Pam oedd y goeden fach yn drist?
- Fyddwch chi'n drist adeg y Nadolig?
- Beth ddigwyddodd i wneud y goeden yn hapus unwaith eto?